



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

Gwybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol Clinigol Clinical Futures Update



Newyddion i'ch cymuned News for your Community

01/10/2020

Y wybodaeth ddiweddaraf i chi a'ch cymuned

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o gylchlythyrau, y byddwn yn eu darparu i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid lleol ynghylch ein rhaglen Dyfodol Clinigol cyffrous a'r cynnydd yr ydym yn ei wneud.

Byddwn yn anfon y diweddariadau hyn atoch ddwywaith y mis wrth i ni agosau at agoriad cynnar Ysbyty Athrofaol y Faenor ar 17 Tachwedd 2020 (gall y dyddiad hwn newid o ganlyniad i'r Pandemig Covid-19).

Rydym wedi galw'r diweddariad hwn yn 'Newyddion i'ch Cymuned' gan ein bod yn gobeithio y byddwch yn rhannu'r cynnwys gyda'r cymunedau yr ydych yn rhan ohonynt, neu'n eu cynrychioli. Wrth i wasanaethau GIG newid ardraws Gwent, mae'n hanfodol bwysig bod trigolion yn deall sut y byddant yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Diolch o flaen llaw am ein helpu i rannu'r negeseuon pwysig hyn.

Nodyn atgoffa am Ddyfodol Clinigol

Dyfodol Clinigol yw cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy ar draws ardal Gwent a hefyd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer pobl De Powys.

Ein nod yw darparu gofal diogel o ansawdd uchel a darparu cymaint o hyn yn y cartref, neu mor agos i'r cartref â phosibl, a hefyd trwy ein rhwydwaith o wasanaethau a gofal yn yr ysbyty a'r gymuned.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym hefyd yn anelu at wella iechyd a lles y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau cynaliadwyedd system gofal iechyd y GIG.

Rydym eisoes wedi gwneud rhai newidiadau mawr i'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau - ac efallai eich bod eisoes wedi gweld ein bod wedi bod yn darparu gofal iechyd mewn gwahanol ffyrdd, yn un o'n cyfleusterau newydd neu yn y gymuned. Rydym wedi symud nifer o wasanaethau yn agosach at le mae pobl yn byw a byddwn yn parhau i



newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, gan sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd popeth a wnawn a phob penderfyniad a wnawn.

Mae agor Ysbyty Athrofaol y Faenor yn elfen sylweddol yn ein Rhaglen Gwasanaeth Dyfodol Clinigol a bydd yn gatalydd ar gyfer cyfres o newidiadau eraill yn ein system ysbytai ar draws Gwent o ganol mis Tachwedd eleni.

Ysbyty Athrofaol y Faenor i Agor yn Gynnar

Ddiwedd mis Awst, cyhoeddodd Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y bydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor pedwar mis yn gynt na'r disgwyl. Mae'r Faenor yn rhan allweddol o'n Rhaglen Dyfodol Clinigol ac mae wedi bod yn yr arfaeth ers blyneddau lawer. Bydd yn darparu canolfan gofal arbenigol a chritigol ar gyfer pobl leol. Bydd y Faenor nawr yn agor ganol mis Tachwedd eleni, yn hytrach na'r dyddiad gwreiddiol ym mis Mawrth 2021.



Bu amrywiaeth eang o weithgareddau yn cael eu cynnal i gefnogi'r agoriad, sydd bellach ddim ond ychydig wythnosau i ffwrdd. Mae timau'r Bwrdd Iechyd a thimau ehangach y GIG yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau y gall ein cyfleuster newydd agor mewn pryd, yn ogystal â'r newidiadau eraill a fydd yn digwydd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r cyfleuster newydd yn Llanfrechfa, Cwmbrân wedi cael dros £360 o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan y safle 60 erw le i 471 o welyau a bydd yn cynnwys

cyfleuster asesu arbenigol 24 awr, cyfleusterau gofal dwys, a chyfleusterau diagnostig cynhwysfawr, gwelyau ar gyfer cleifion argyfyngau mawr a llawdriniaethau cymhleth.

Mae cwblhau a chomisiynu'r Ysbyty newydd wedi bod yn dod yn ei flaen yn llwyddiannus, a diolch i'n partneriaid adeiladu, Laing O'Rourke, roeddem yn gallu cyflymu cwblhau'r Ysbyty yn gynt na'r disgwyl i gefnogi ein hymateb i'r Pandemig COVID-19 ac i gefnogi darpariaeth gwasanaethau yn ystod y gaeaf.

Newidiadau Ehangach i'n Gwasanaethau

Mae ein rhaglen Dyfodol Clinigol yn ymwneud â mwy nag Ysbyty Athrofaol y Faenor, mae'n ymwneud â newid y ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei gyflwyno yng Ngwent. Bydd ystod gyfunol o wasanaethau yn aros yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall gyda gofal i gleifion mewnol ac allanol, gan gynnwys profion diagnostig, therapïau, triniaeth mân anafiadau, a gwasanaethau genedigaeth dan arweiniad bydwagedd sydd ar gael ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd Ysbytai Brenhinol Gwent a Nevill Hall yn ymuno ag Ysbyty Ystrad Fawr, Ysbyty Aneurin Bevan, Ysbyty Gwynllyw, Ysbyty Cas-gwent ac Ysbyty'r Sir i ddarparu rhwydwaith o ysbytai sy'n gallu darparu'r rhan fwyaf o ofal mewn ysbytai i'n cymunedau lleol.

Rydym wedi datblygu tudalennau pwrpasol ar ein gwefan i adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd a'r hyn a fydd ar gael ar bob safle.

Dilynwch y ddolen i weld y tudalennau hon: <https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol>

Mae Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn allweddol

Mae ystod o waith yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb pobl ac i'w hysbysu am agoriad Ysbyty Athrofaol y Faenor a'r hyn y mae'n ei olygu i'n gwasanaethau ehangach. Darperir gwybodaeth i bobl leol ar sut i gael mynediad i'n gwasanaethau unwaith y bydd yr ysbyty newydd yn agor, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus. Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth mewn rhifynnau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, yn enwedig am drefniadau trafndiaeth a mynediad.

Byddwn yn recordio fideo wythnosol gyda chlinigwyr arweiniol a fydd yn darparu gwybodaeth arbenigol am y newid sy'n cael ei drafod. Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o sesiynau Facebook Live i siarad am wahanol wasanaethau a safleoedd i ddarparu mwy o wybodaeth ac ateb y cwestiynau a allai fod gan bobl leol am wasanaethau.

Mae yna gynnwys newydd ar dudalennau Dyfodol Clinigol ein gwefan. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau ac ymhle a sut y byddant yn cael eu darparu. Rydym hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd trwy ein hamrywiol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Bydd taflen hefyd yn cael ei datblygu ar gyfer pob cartref yng Ngwent a byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am hyn mewn diweddariadau yn y dyfodol, ond bydd hyn yn cael ei wneud cyn agor y Faenor ac wrth i'r newidiadau ehangach yn y system ddod i rym.

Byddwn hefyd yn parhau i fynd i gyfarfodydd rhithwir gyda'n partneriaid ar draws Gwent. Yn ogystal â'r cyfarfodydd rhithwir bydd yr holl randdeiliaid yn parhau i gael gwybodaeth trwy gylchlythyrau a negeseuon e-byst, fel yr un yma.

ê

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i gynhyrchu'r wybodaeth Dyfodol Clinigol yn y 10 prif iaith a siaredir yng Ngwent, yn ogystal ag Arolygon, ac yn parhau i brofi gwybodaeth gyda'r cyhoedd a'n hyrwyddwyr yn y gymuned.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ymgysylltu â'r cymunedau anoddaf eu cyrraedd i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ein gwasanaethau a sut i gael mynediad atynt.

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ABHB.enquiries@wales.nhs.uk

Mae ein cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol a'n gwefan yn cael eu diweddaru'n barhaus gyda'r wybodaeth ddiweddaraf, felly cadwch llygad ar y diweddariadau hon a rhannwch nhw ag eraill yn eich cymuned. Dilynwch ni ar:



@BwrddIechydAneurinBevan



@BIPAneurinBevan



@BIPAneurinBevan



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures